# XIII

# PERTHYNAS YR EGLWYS Â PHOBL A GWAHANOL SEFYDLIADAU

**Pwrpas Capel neu Eglwys**

Gallwn synhwyro nad yw bod yn aelod eglwysig yn golygu cymaint heddiw ag a olygai gynt. Pan fydd popeth o'n plaid a bywyd yn weddol esmwyth a dibryder, pa ddiben yw perthyn i gymdeithas o'r fath? Dyna farn y mwyafrif y dyddiau hyn. Ond, pan ddaw troeon blin i'n bywyd fel yr un y cyfeiriwyd ato yn y bennod ddiwethaf, 'rydym yn barod i chwilio am Waredwr i'n cynnal a'n cysuro.

Wrth olrhain hanes capel neu eglwys, naturiol yw gofyn, 'Paham y mae angen addoli?' Dywedir bod pob bod dynol yn addolwr wrth natur, a'n bod yn addolwyr cyn i ni erioed ildio i'r demtasiwn o bechu. Gwyddom fod plentyn bach yn addoli a pharchu ei fam, ond yn hwyr neu'n hwyrach, bydd yn debygol o bechu yn ei herbyn. Mae pob cenedl yn addoli rhywun neu rywbeth. Bydd y paganiaid, hyd yn oed, yn gwneud hynny, ond pan fydd person yn dewis addoli Duw, mae'n awyddus i gydnabod rhywun mwy dyrchafol nag ef ei hun. Dengys yr holl gapeli a'r eglwysi mawrion, heirdd a godwyd yng Nghymru fod y genedl Gymreig wedi sylweddoli ei dyletswydd i addoli'r Duw goruchaf. Daeth y Cymry i'w adnabod oherwydd ni fedr neb addoli heb adnabod y gwrthrych.

Rhaid i ni sylwi ar osodiad gŵr o'r enw Wendel Holmes er mwyn ceisio ateb y cwestiwn, 'Paham y dylem addoli?' Credai ef fod planhigyn o'r enw 'parchedigaeth' wedi ei blannu yn ei gyfansoddiad a'i bod yn ofynnol iddo fynd i'r Cysegr er mwyn bwydo a dyfrhau hwnnw. Cyfrwng i'n deffro yw addoli a'n galluoga i fod yn ymwybodol o'n sefyllfa ysbrydol. Dyma'r modd y cawn nerth i wynebu ein dyletswyddau, cydnabod hawl Crist ar ein bywydau a phlygu i'w ewyllys. Mae perthyn i gapel neu eglwys yn golygu ein bod yn ceisio dilyn llwybrau Crist. Pan

fyddwn yn gadael y gwasanaeth, dylem sicrhau parhad yr awyrgylch a grewyd yno, drwy ei ddwyn allan i'r byd, fel y gall ddylanwadu'n ddyrchafol ar ein gweithgareddau beunyddiol.

Cyhoeddi'r Efengyl a hyrwyddo teyrnas ein Harglwydd Iesu yw prif orchwyl gweinidogion. Bu gweinidogaeth y Gair yn bwysig i fywyd ein cenedl yn y gorffennol. Cafodd ddylanwad eithriadol ar lawer o bobl. Yn wir, ni adawodd yr un cyfrwng arall y fath ddylanwd ar Gymru yn y ganrif ddiwethaf na phregethu. Cyfeirir at *Y Beibl* fel 'Llyfr y Llyfrau' gan un o'n hemynwyr. Ynddo, cawn y map neu lun y daith drwy'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. Hebddo, nid oes gennym lusern na mynegbost. Fel y canodd y Salmydd, "Llusern yw dy air i'm traed a llewyrch i'm llwybr". Mae'n bwysig ein bod yn cadw'r *Beibl* ar y pulpud – y man canolog yn nghapeli'r Anghydffurfwyr, yn wahanol i'r eglwysi. Tybed a ydym ni, heddiw, am dderbyn egwyddorion y Gair ar ein hamodau ni.

Cawsom gyfieithiad newydd o'r *Testament Newydd* ar Ddydd Gŵyl Ddewi, 1975 a'r *Beibl* cyfan mewn iaith ddealladwy ar Ŵyl Ddewi, 1988. Pan ddefnyddia'r pregethwr y cyfieithiad newydd, dichon ei bod yn haws i'w gynulleidfa ddeall a derbyn ei neges. Boed i'r argraffiad cyfoes fod yn fodd i dywallt bendithion nefol arnom. Mae'n bosibl fod mwy o angen iaith 'bob dydd' arnom ni nag ar ein cyndeidiau diymhongar, oherwydd bod yr Ysgrythurau yn fwy dieithr i ni nag oeddent iddynt hwy.

Dichon fod angen aildrefnu patrwm ein gwasanaethau crefyddol hefyd er mwyn cwrdd â gofynion yr oes a'r ffordd fodern o fyw. Tybed a fyddai hynny'n fodd i ddenu'r ieuenctid. Cred rhai mai eisiau newid y bobl sydd ac nid newid trefn a chynnwys yr oedfaon. Ni chododd y cwestiwn hyd yn ddiweddar, ac nid newid pethau sydd o angenrheidrwydd yn sicrhau parhad unrhyw sefydliad. Tystiai Jubilee Young, yn ei ddydd, mai cadw pethau 'run fath sydd wedi diogelu parhad ar hyd y blynyddoedd. Efallai mai angen mwy o argyhoeddiad sydd arnom – yr oes sydd wedi gwerthu'r enaid i fateroliaeth. Nid ymwneud ag adeiladau, er pwysiced ydynt, yw prif amcan crefydd, ond yn hytrach, adeiladu pobl. Collasom weledigaeth a ffydd ein hynafiaid, a'n hangen pennaf heddiw yw Cristnogaeth ac nid Capelyddiaeth.

Daeth nifer o enwogion ein cenedl i gysylltiad ag Eglwys Esgairdawe. Diddorol, felly, yw cynnwys tystiolaeth y llenorion

profiadol hyn am yr eglwys, a dyma ddyfyniadau allan o'u cyfrolau gwerthfawr:

**Boreu Sabbath yn hen Gapel Esgairdawe**

Treuliais auaf 1825-6 mewn ysgol a gedwid yn y capel uchod gan Daniel Abel, yr hwn ydoedd yn well cynrychiolydd na'r cyffredin o'r hen do o ysgolfeistri. Yr oedd yn ysgrifenwr godidog o dda, ac yn medru rhifyddeg cyn belled a diwedd Practice; ac yn ychwanegol at hyn, yr oedd yn wr crefyddol, ac fel y cyfryw rhoddai gynghorion priodol i'r plant dan ei ofal. Cnoai dybaco yn ddibaid, a chwistrellai ei sudd yn gawodydd ar hyd lyfrau y dysgyblion, ac yn llygaid blaenor y dosbarth a safai yn ei ymyl wrth adrodd eu gwersi; a rhwng fod y llygaid yn llosgi ac yn dyfrhau, anhawdd iawn i hwnnw, druenusyn anffodus, ydoedd gallu gwahaniaethu rhwng un llythyren ac un arall; ac mewn ychwanegiad o ofid, anerchid eu ffroenau gan ryw sawyr gwahanol oddiwrth arogl rhosyn, o herwydd fod ei water works wedi myned, gan oedran, dipyn yn amharus.

O'r Erwyon, yn ymyl Ffaldybrenin, lle trigai fy nhad, yr oedd gennyf yn agos i dair milltir o ffordd i Esgairdawe, a'r llwybr, gan mwyaf, dros ran o ystlys ddwyreiniol mynydd noeth (y pryd hwnnw), mynydd Llanbedr. Lle mae tai a thyddynod gwrteithiedig yn awr, nid oedd yn 1825 ond corsydd a thasau mawn. Nid oedd na thy na thwlc, nac un meddwl y gwelaid byth ddim o'r fath. Yr oedd fy nhad wedi cytuno ag un o aelodau Esgairdawe i mi gael llety bob nos y byddai yr hin yn rhy ystormus i mi groesi y mynydd. Fel rheol, gwersyllwn yn Brynysgol gyda'r hen Beggy a'i mab Harry, ond yn aml iawn derbyniwn wahoddiad gan y naill a'r llall o'm cydysgolheigion i dreulio noson yn nhai eu rhieni. Fy etholedig fan ydoedd Blaenycwm, lle yr oedd haid o blant bywiog, chwareugar, ac anarferol o garedig. Syrthiodd tua thair troedfedd o eira y gauaf hwnw, ac arosodd ar y ddaear am yn agos i chwech wythnos, ac mewn canlyniad, bum inau yn garcharor dedwydd am yr ysbaid hyn o amser ym mlaen Cwmdawe. Yr oedd digonedd o fawn duon celydd wedi eu crasu i berffeithrwydd, ac ar ddechreu nos, pentyrid hwynt yn ddiarbed ar yr aelwyd, ac wedi cyneu, yr oedd yno ddigon o dân i rostio llo neu ŷch pasgedig. I swper, fel rheol, caem gawl llaeth, a llaeth didwyll ydoedd, gan, o herwydd y rhew, y cynwysai yr oll o'r hufen, a bara haidd ysgafn, rhwyllog fel gogr, ac wedi ei bobi yn llawn cystal ag y medrasai pen-pobydd Pharaoh wneud. Ar ôl y cyfryw bryd sylweddol ac iachus, cysgem trwy gydol y nos mewn gwely gwellt, a lleng o gywelyaid mewn plancedi blewog, trwchus, a than warcheidwaeth hen frethyn eddi ag oedd wedi bod yn fagwrle i genedlaethau lawer o chwain cryfion, heini, ac yn mynu byw nifer digonol o flynyddoedd i weled eu hŵyrion a'u gor-ŵyrion.

Yr oedd (ac y mae yn awr, ond ei fod wedi ei droi yn dŷ anedd) hen gapel Esgairdawe yn gyfleuedig ar y llethr dwyreiniol a rydd ei help i ffurfio blaen cwm cul Dawe, yr hwn, fel holl gymoedd

Cymru, a ddiwedda mewn mynydd, megys y diwedda y rhaniadau rhwng bysedd y llaw a'r llaw ei hun. Cyffredin iawn ac eithaf cyntefig ydoedd y capel. Mae sedd (panneled seat) o bob tu i'r pulpud, ac yna ysgiwiau . . . Nid oedd dim dyddorol ar y pryd yn ymddangos yn y pethau arferol a chyffredin a adroddasom; ond heddyw, pan yn edrych arnynt trwy gyfrwng hanner can' mlynedd, gwisgir hwynt a heirdd fentyll barddoniaeth. Adgofion mebyd gyfansoddant farddoniaeth henaint a phenllwydni.[1]

Rhannau cyntaf o ysgrif J.R. Kilsby Jones yw'r uchod, Cyfeiriwyd at gynnwys y gweddill ohoni wrth drafod nodweddion yr Hen Dŷ Cwrdd yn y chweched bennod. Mae'n ysgrif ddiddorol a gwerthfawr gan ei bod yn rhoi i ni ryw syniad am fywyd yng nghefn gwlad tua dechrau'r ganrif ddiwethaf, yn ogystal â chipolwg ar grefydd y cyfnod. Ceir ynddi ddisgrifiadau gwych na fedrem ni eu cyfansoddi, oherwydd diflannodd o'n geirfa ni lawer o'r geiriau prydferth a ddefnyddiodd Kilsby.

Pan gyhoeddwyd yr ysgrif, ym 1876, 'roedd y tŷ cwrdd wedi ei droi yn dŷ annedd. Bellach, dim ond ychydig gerrig sy'n dynodi'r fan lle safai. Ar ddiwedd yr ysgrif y gwelir y frawddeg olaf a ddyfynnwyd, ac wrth edrych yn ôl dros ysgwydd hanner canrif, ymddengys y cyfan yn fwy diddorol ac anghyffredin i'r llenor hwn.

Un arall o gofnododd ei atgofion am fore oes yn yr ardal oedd D. Derwenydd Morgan. Cyfeiria'n fanwl iawn at gyfarfodydd gweddi a gynhelid yno yn y ganrif ddiwethaf. Ganed ef yng Nghwar-coed:

Wel, ganed fi mewn hen amaethdy tawel ynghwr uchaf swydd Gaerfyrddin, Nid yw yr ardal, cyn belled ag y gwn i ar y map, oherwydd ardal wledig, anghysbell, a dinod ydyw, ond i mi nid oes ardal yn y byd yn hafal iddi. Un o blant yr uchelderau oeddwn i. Yn ddaearyddol cefais fy magu'n agosach i'r nefoedd na'r rhan fwyaf o blant dynion . . . Gweithio'n galed gefais i pan yn hogyn; codi'n fore a myned yn hwyr i gysgu a dal pwys y dydd a'i wres . . .

Mae gennyf gof cynnar iawn o gyfarfod gweddi bach a gynhelid yn yr ardal. Yr oeddem ni y plant dan orfodaeth myned iddo gan ein rhieni. Nid oedd gwahaniaeth am y prysurdeb adeg y cynhaeaf. "Down tools" bob amser oedd hi a myned i'r Cwrdd Gweddi. Balch oeddem i gael myned, nid am ein bod yn teimlo rhyw lawer o ddiddordeb yn y cyfarfod, ond dyna'r unig gyfle a gaem i weled dynion ar hyd yr wythnos. Rhyw ddygn unigrwydd oedd hi ar y fferm o Saboth i Saboth. Byddai y Cwrdd Gweddi yn myned ar ei daith o fwthyn i fwthyn, ac o fferm i fferm, rhyw un noson yr wythnos. Yr oedd pob bwthyn ar ei newydd wedd, ar noson y Cwrdd Gweddi.

Byddai yno lanhau, a rhwbio a gwyngalchu, sialco a phaentio am wythnosau yn y bwthyn bach cyn dyfod o'r noson. Byddai pob llwchyn o faw yn gorfod mynd, a phob coryn yn gorfod newid ei lety. Isel, fel rheol, fyddai'r tŷ ac yr oedd yn rhaid i lawer un tal blygu ei ben cyn myned i fewn, – lle braf i ddysgu gostyngeiddrwydd! Dyna lle yr oedd canu. Efallai na wyddent ryw lawer am gelfyddyd; ond gwyddent y ffordd i godi'r hwyl a thynnu'r nefoedd i lawr, a theimlem fflapiadau engyl y gogoniant ar fondo'r bythynnod bach tô gwellt noson y Cwrdd Gweddi. Weithiau, byddent yn colli'r dôn. Gwelais hi'n ceisio ffoi allan drwy yr hen simne lwfer, lawer tro, ond dyma ryw hen frawd neu ryw hen chwaer yn cydio yn ei chynffon ac yn ei thynnu yn ôl, a dyma gwrs iddi wedyn. Mae llawer tro ar fyd oddiar hyn. Mae un genhedlaeth wedi mynd ac arall wedi dod. Yr wyf wedi clywed llawer o ganu, a llawer o weddïo yn fy oes, eithr ni chafodd yr un canu fwy o ddylanwad, ac nid aeth yr un weddi erioed yn ddyfnach i'm bywyd, na chanu a gweddïo yr hen seintiau gwledig ac anghaboledig, a glywais gynt ar drothwy fy oes.[2]

Pe bai'r arferiad o gynnal Cwrdd Gweddi o dŷ i dy wedi parhau hyd ein dyddiau ni, hwyrach y byddai'n un ffordd o gael mwy o bobl i fynychu'r cyfarfodydd hyn. Yn wir, erbyn heddiw, ni welir yr angen am gyfarfodydd o'r fath, hyd yn oed yn y capeli. Mae'n bosibl fod yna fwy o weddïo yn y dirgel, yn ôl gorchymyn yr Arglwydd Iesu. Rhaid ymatal rhag gwyngalchu'r gorffennol yn ormodol, a hynny ar draul pardduo'r presennol.

Drwy ryw gyd-ddigwyddiad, yng Ngwar-coed, Esgairdawe yr oedd gwreiddiau ein llenor nesaf hefyd, sef D.J. Williams. Roedd Sali, ei fam, yn hanner chwaer i Dderwenydd. Heb amheuaeth, cyfrannodd y ddau yn sylweddol tuag at lenyddiaeth ein gwlad, ond D.J. Williams a ddaeth yn fwyaf amlwg ym mywyd ein cenedl. Er mai bedyddwyr selog oedd hynafiaid mam D.J. Williams, gyda'r Annibynwyr yn Esgairdawe yr ymaelododd hi, a pharhaodd yr un mor ffyddlon i'r enwad hwnnw ar ôl ymgartrefu yn Rhydcymerau. Dyma rai o atgofion D.J. Williams am ei ddyddiau cynnar:

Ychydig o bethau a gofiaf i am y capel, am nad eid â mi yno'n fynych, oherwydd y pellter i goesau byrion, mae'n debyg, – dwy filltir faith dros gaeau serth a gweundir, ac afon y rhan gyntaf o'r ffordd, i gapel yr Annibynwyr yn Esgerdawe. Yno'r oedd fy mam yn aelod selog cyn priodi, a pharhaodd yn Annibynwraig yr un mor selog hyd ei bedd, er yn perthyn i gapel y Methodistiaid yn Rhydcymerau, ran helaethaf o'i hoes. 'Roedd ffyddlondeb a pharch i

bethau cynharaf ei bywyd mewn cartref ac eglwys, yn fath o addoliad yn natur fy mam. 'Rwy'n cofio am y pregethwr yn gweiddi – y Parch. Henry Jones, Ffaldybrenin – y gweinidog. Ef ydoedd gŵr 'Nanti Rachel', chwaer i fam Idwal Jones, Llanbed. Gwraig o allu a phersonoliaeth arbennig ydoedd Mrs. Henry Jones. Clywais Idwal, gyda'i ysmaldod arferol, yn dweud, yn ddiweddarach, fod ar Olwen, ei chwaer, ac yntau, yn blant ar eu gwyliau yn Ffaldybrenin, fwy o ofan ei Nanti Rachel nag o ofn y Bod Mawr 'i Hunan. I'm mam i ni fu'r fath ddyn erioed â'i gweinidog bore oes hi, – Henry Jones, Ffaldybrenin, na rhagorach gwraig na'i briod. Ef, medden nhw eto, a daenellodd ddiferynnau oerion ar fy nhalcen i yn sgrechgi bach erchyll yn ei gôl yn set fawr Esgerdawe. Ond, fe synnwch,'d oes genny'r un whithryn o gof am hynny, er pwysiced yr amgylchiad.[3]

Dyma gofnod o'r bedydd hwnnw:

335. David John, son of John and Sarah Williams Penrhiw fawr was baptized at Esgairdawe Chapel, October 4th, 1885.[4]

Er nad yw'r pellter o'm hen gartref i Ffaldybrenin ond rhyw chwech neu saith milltir yn groes gwlad, eto, unwaith yn unig, a hynny yn ei thŷ ei hun y cwrddais i â Mrs. Henry Jones, a minnau, bellach, mewn oed, yn berchen gradd gyfan, ac wedi bod yn llanw bwt drwy geisio pregethu yn y capel ryw fore Sul, a chael cinio ganddi hi. Mae o'm blaen, yn awr, rodd a gefais ganddi hi'r bore hwnnw ac a brisiaf ymhlith fy nhrysorau. Llyfr trwchus, cyfansawdd wedi ei rwymo'n dda ydyw, yn cynnwys, *Cymru Fu* (Glasynys), *Traethodau Gwladol a Moesol,* Francis Bacon (Cyfieithiad Richard Williams, Trallwng) ac *Atgofion am John Elias* gan R. Parry (cyhoeddwyd gan Isaac Foulkes, Liverpool, 1864). Dyma sydd wedi ei ysgrifennu arno:

"Rhodd Mrs. Henry Jones i Mr. Williams, B.A. er cof am ei hannwyl ŵr y Parch. H. Jones gweinidog Ffaldybrenin ac Esgerdawe am 40 mlynedd."

Heddwch i lwch y ddau dyst ardderchog hyn o'r bywyd Cristnogol. Yn y cylch gwledig hwn dylanwadodd eu tystiolaeth ddisigl a chywir ar dorf fawr o bobl, – yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Roedd fy nhad yn heliwr o'i fodd. Cofiaf amdano'n gwanu'i ddryll o'r golwg ym môn y berth cyn dod at Ryd Fallen Isa ar y ffordd i ryw gwrdd deg o'r gloch, fore o'r wythnos yng Nghapel Esgairdawe (Cwrdd Diolchgarwch, yn lled debyg); am rywun yn rhoi'r emyn ma's i'w ganu bob yn ddwy linell i lond capel o bobl; ac am lais tyner rhyw hen ŵr ar weddi, yn codi ac yn gostwng, yn codi ac yn gostwng, a'r effaith arnaf i.

Cofiaf, hefyd, am y sioc a gefais ar ddiwedd y cwrdd whech ryw nos Sul, ganol haf, a finnau'n dechrau adrodd yn gyffrous wrth 'nhad, ymhell cyn cyrraedd y drws, am y ci coch wedi boddi a welswn i yn y crych ar waelod y pwll o dan Esgair Wen wrth ddod i'r capel

gyda Dafydd y gwas. Chwarddodd pawb yn uchel. Beth wnes i o'i le 'doedd genny'r un syniad.[5]

Ni chlywais fy mam yn gwneud dim yn gyhoeddus erioed, ac eithrio holi'r Ysgol Sul, weithiau, pan ddôi tro ei dosbarth hi. Gwnâi hynny'n syml ac yn ddigon pwrpasol. Ond yn fynych, fynych, a hithau'n ddyfal wrth ei gwaith, heb feddwl fod neb yn gwrando, fe'i clywn hi'n llafarganu ei gweddïau a'i myfyrdodau mewn ymson leddf, ymbilgar, gan blethu salm ac adnod ac emyn yn brydferth drwy'r cyfan . . . Hanner addolai ei thad, Dafydd Gwarcoed a Henry Jones, Ffald y Brenin, ei gweinidog cyntaf . . . a chredai nad oedd gilfach y tu yma i'r nefoedd yn debyg i Gwm y Wern, lle maged hi, y cwmwd bychan o shiprys enwadol, yn Annibynwyr a Methodistiaid, rhwng y ddwy ardal, Rhydcymerau ac Esgerdawe, – a 'nhadcu yr unig flaguryn Bedyddiedig yn eu plith.[6]

Ond am ei hen gartref hi ei hun yng Ngwarcoed, ei thad a'i brodyr, Cwm bach y Wern a'i Ysgol Sul a'i gyrddau gweddi ar-hydtai, Henry Jones y gweinidog, ei chyfoedion bore oes, yn hen ac ifanc, y fath ydoedd y "pietas" cysegredig a gylchynai y rhain i gyd iddi hi fel nad oedd na bai na ffaeledd yn bod yn neb na dim yno . . .

Dyddiad priodas fy rhieni yn Esgerdawe oedd Tachwedd 17, 1883, a'r Parchg. Henry Jones, y gweinidog, yn gweinyddu'r seremoni.[7]

Wrth grwydro sir Gâr, arhosodd Aneirin Talfan Davies, am ychydig amser yn Esgairdawe, a dyma'r hyn a 'sgrifennodd am y lle ac am y llenor enwog a aned yn yr Hen Dŷ Ffarm:

Ail gychwyn ar fy siwrne, i fyny ac i lawr, troi a throellu, Esgair Dawe. Tŷ neu ddau, ysgol a chapel yr Annibynwyr ar y llethr a mynwent o'i gwmpas. 1844 yw'r dyddiad ar y capel ond y mae achos yr Annibynwyr yn y lle yn llawer hŷn na hynny. Ond ei ddiddordeb i mi oedd mai yma y bedyddiwyd un o'r hoffusaf o blant Sir Gâr, ac un o'i llenorion mwyaf gwiw, awdur *Hen Wynebau, Storïau'r Tir Coch,* a *Storïau'r Tir Glas,* a'r darlun cywir, cyfan hwnnw o gymdeithas ei blentyndod yn *Hen Dŷ Ffarm.*

Ac wrth ddarllen yr hunangofiant hwn – lle y llwyddodd i 'sgrifennu dau can tudalen heb ond braidd gyrraedd dydd ei eni, ni synnwn glywed iddo ym mreichiau'r gweinidog gymryd diddordeb byw yn y gweithrediadau, a tharo nodyn, megis ar ymyl dalen cof, ar gyfer ei gampau llenyddol a oedd yng nghôl y dyfodol.[8]

## Egwyddorion yr Annibynwyr

Gan fod eglwys Esgairdawe yn perthyn i enwad yr Annibynwyr, priodol yw cyfeirio at rai o egwyddorion sylfaenol yr enwad hwnnw. Gellir dilyn achau'r Annibynwyr Cymraeg yn ôl i'r Diwygiad Radical ar y cyfandir:

Bu dwy brif ffrwd yn Niwygiad Portestannaidd yr unfed ganrif ar bymtheg, y ffrwd a adnabyddir fel y Diwygiad Ynadol, a gynrychiolir

gan Martin Luther, Ulrych Zwingli a Jean Calvin, a'r ffrwd a adnabyddir fel y Diwygiad Radical a ddechreuodd yn ninas Zurich gyda Conrad Grebel a'i gyfeillion fel ei phrif ladmeryddion cynnar. Torrodd y rhain i ffwrdd oddiwrth eu hathro, Zwingli, am na chredent fod hwnnw a'r diwygwyr eraill yn barod i ddilyn egwyddorion sylfaenol Portestaniaeth i'w pendraw rhesymegol... Ymdrechai'r diwygwyr radical i ail-fabwysiadu ffurf a threfn yr Eglwys Fore, yn enwedig fel y portreadir hi yn y Testament Newydd.[9]

O'r cychwyn cyntaf, mae Mudiad yr Annibynwyr wedi llwyr ymwrthod â rheolaeth ganolog. Nid yw'n ystyried crefydd fel mater i'r wladwriaeth nac ychwaith i ryw awdurdod eglwysig. Yn hytrach, rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd y crediniwr unigol a'r gynulleidfa leol. Eto, nid yw rhyddid yr unigolyn yn golygu penrhyddid. Rhaid cael cydweithrediad rhwng dyn a dyn. Golyga hynny ryw ffurf ar ddisgyblaeth, gan weithredu yn ôl ewyllys Duw. Dyma eiriau Guto Prys ap Gwynfor:

Ni ddylai'r wladwriaeth ymyrryd ym mywyd ysbrydol y bobol ac ni ddylai'r awdurdodau gwladol geisio gorfodi unrhyw un i fod yn Gristion. Dim ond pobol a ddymunai berthyn yn wirfoddol i'r eglwys oherwydd eu ffydd a'u hargyhoeddiad a allai fod yn aelodau cyflawn o Eglwys Iesu Grist... Ni all traddodiad nac arfer wneud person yn Gristion, dim ond argyhoeddiad, buchedd lân a ffydd bersonol.[10]

Bu'r Cymry yn aros yn hir cyn sicrhau'r hawl i'r Efengyl gael ei phregethu yn y Gymraeg yng Nghymru. Ym 1536, o dan lywodraeth Harri'r Wythfed, gwnaed Cymru a Lloegr yn wladwriaethau Protestannaidd. Bu John Penri'n dadlau'n frwd dros ei gyd-genedl am nad oedd gan y wladwriaeth na'r frenhines Elisabeth y Cyntaf unrhyw ddiddordeb er lles y Cymry. O ganlyniad, anogodd John Penri y Cymry i gymryd y cyfrifoldeb o gyhoeddi'r Efengyl yn Gymraeg, heb gael nawdd na chymorth gan y llywodraeth. Yn wir, ysgrifennodd at y frenhines i ofyn am gefnogaeth iddo ef i bregethu yn Gymraeg, ond gwrthododd ei gais. Ni ddigalonnodd a mynnodd gael ei ffordd, gan gyhoeddi pamffledi i helpu ei achos. Rhoddwyd ef yn y carchar am iddo fradychu'r teyrn. Pan ryddhawyd ef, ailddechreuodd bregethu eto a gorfu iddo ddianc i'r Alban lle bu am dair blynedd. O'r diwedd, penderfynodd ddychwelyd i'w gartref yng Nghefn-brith, sir Frycheiniog. Daliwyd ef yn Llundain ac fe'i crogwyd ym mis Mai, 1593, yn ŵr ieuanc, deg ar hugain oed. Gwelir pulpud yng Nghapel yr Annibynwyr yn Southwark,

Llundain, i'w goffáu fel un o ferthyron mwyaf Cymru. Dyma un a frwydrodd hyd angau er ceisio sicrhau rhyddid i'r Annibynwyr, – un o'r egwyddorion mwyaf sylfaenol.

Ymhen hir a hwyr, sefydlwyd yr eglwys Annibynnol gyntaf yn Llanfaches ym 1639, ac yn ddiweddarach, agorwyd nifer o eglwysi eraill led-led y wlad. Lleygwyr o blith aelodau'r gynulleidfa oedd y gweinidogion cynnar. Yn hanes Annibynwyr Cymru, nid swydd llawn amser oedd y weinidogaeth. Bu llawer o'r gweinidogion yn cyflawni gwaith arall er mwyn cynnal eu hunain a'u teuluoedd – galwedigaethau megis meddygon, mil-feddygon, siopwyr, a ffermwyr, ond yr alwedigaeth fwyaf poblogaidd oedd cadw ysgol – ysgol i blant ac ysgol baratoawl neu academi, fel y gwnâi Dr. William Davies, Ffrwd-fâl. Mae gweinidog yn hollbwysig i'r eglwys Annibynnol; hebddo, byddai'r eglwys yn anghyflawn.

Dyma grynodeb o egwyddorion yr enwad:

1. Yr egwyddor sylfaenol yw'r gred gyffredin yn Arglwyddiaeth ysbrydol Iesu Grist, Fab Duw a Gwaredwr pawb a rydd ei ymddiriedaeth ynddo.

2. Dylai'r aelodau fod yn bobl a gafodd brofiad o rym Efengyl Crist, fel y gallant ymdeimlo â bod yn rhan o gorff Crist. Felly, rhaid iddynt feddu ar ffydd a bywyd o Dduwioldeb.

3. Ni ddylai un eglwys gyfrif ei bod yn eglwys ar wahân i bob un arall. Ceir Undeb a Chyfundeb o fewn y mudiad er mwyn sicrhau bod yr eglwysi yn cymdeithasu, cynorthwyo a chalonogi ei gilydd. Nid cymuned ynysig yw eglwys, yn gofidio am ei buddiannau ei hun yn unig. Rhaid iddi ddangos consyrn am bobl anghenus ar hyd y byd a theimlo ei bod yn rhan o'r eglwys fyd-eang.

Cyfeiriodd gweinidog wrth bregethu mewn Gŵyl Ddiolchgarwch, un tro, at eglwys arbennig a welodd mewn gwlad dramor. Roedd ffenestr gul ar draws y pedwar mur o gwmpas yr adeilad, a hynny ar lefel llygaid yr addolwyr pan safent ar eu traed i ganu. Drwy hyn, gallent edrych allan i'r byd, i bob cyfeiriad a chanfod anghenion pobl eraill. Dyna amcan eglwys.

4. Mae rhwysg a seremoni yn bethau gwrthun yng ngolwg yr Annibynwyr. Cynnal oedfa seml o ran trefn yw'r bwriad. Y bregeth yw'r canolbwynt. Ni cheir rheolau ynglŷn â'r offerynnau cerdd a ddefnyddir i gynorthwyo'r gân. Ar un adeg, 'roedd

y ffidil a'r chwibanwr yn boblogaidd, ond hyd yn oed ar ddechrau'r ganrif hon nid oedd organ yn dderbyniol yn y Tŷ Cwrdd – offeryn y dafarn ydoedd. Eithr gyda threiglad amser, fe'i derbyniwyd. Ni cheir nemor un addoldy hebddo heddiw.

5. *Dyletswydd pob eglwys unigol:*

(a) Derbyn a rhyddhau aelodau

(b) gweithredu'r ddisgyblaeth angenrheidiol er mwyn diogelu ysbrydolrwydd y cymundeb

(Roedd gan bob eglwys Annibynnol ar un adeg, gymal yn datgan bod unrhyw un a gollai dri chymundeb yn olynol, heb reswm digonol, yn ei ddiaelodi ei hun. Ni wneir sylw o hwn bellach. Yr unig amod a roddir heddiw yw'r un ariannol).

(c) dewis gweinidog a diaconiaid

(ch) trefnu ffurf yr addoliad

(d) hyfforddu'r plant a'r bobl ifainc yn y ffydd Gristnogol

(dd) trefnu'r gofynion ariannol ac anghenion eraill

(Arferai ysgrifennydd Esgairdawe ddarllen enwau'r aelodau a'u cyfraniadau ar brynhawn Sul, ddechrau'r flwyddyn, er mwyn canfod y sefyllfa ariannol. Daeth cyfnewidiad ym 1948 pan ddechreuwyd cyhoeddi Adroddiadau sy'n rhoi golwg barhaol ar gyfraniad pob aelod).

6. *Dyletswyddau eglwysi gyda'i gilydd, drwy Gyfundeb ac Undeb yr Annibynwyr:*

(a) hyrwyddo'r gwaith cenhadol yng Nghymru a thrwy'r holl fyd

(b) codi eglwysi newydd

(c) cynorthwyo eglwysi gweinion

(ch) cyflwyno personau cymwys i'r Weinidogaeth, gan gydweithio â Cholegau Diwinyddol yr Annibynwyr

(d) cyhoeddi a dosbarthu llenyddiaeth Gristnogol

(dd) ceisio sicrhau cydnabyddiaeth deilwng i weinidogion

(e) cynorthwyo gweinidogion wedi ymddeol neu fethu gan afiechyd a gofalu am weddwon gweinidogion yn ogystal

(f) dwyn cymdeithasau a sefydliadau Annibynnol eraill i gysylltiad â'i gilydd

(ff) cydweithredu gydag enwadau Cristnogol eraill er mwyn hyrwyddo Teyrnas Dduw ymhlith y bobl

7. *Materion eraill i'w hystyried:*

(a) amodau aelodaeth o'r eglwys, ar sail cred neu arall

(b) ymwrthod â chrefydd sy'n cael ei sefydlu gan y Wladwriaeth

(c) ymroddiad pobl yn bwysicach na'u nifer

(ch) cydlafurio â phob Cristion i ba enwad bynnag y perthyn

(d) cynorthwyo eraill i ennill y byd i Grist, drwy ledaeniad ei Efengyl, gan geisio dyfnhau ein ffydd, ein gobaith a'n cariad

Buddiol hefyd yw nodi arwyddair yr Annibynwyr, – "Lle byddo Crist, yno mae eglwys".

Rhoddir clo ar y sylwadau hyn drwy ddyfynnu eto o bregeth y Parchedig Athro Guto Prys ap Gwynfor:

> Oes yna eglwys Annibynnol ar ôl yng Nghymru? Ni wn am un sy'n perthyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Mae'r egwyddorion sylfaenol wedi hen ddiflannu. Caniateir pobol i ystyried eu hunain yn aelodau er na fynychant oedfa o un pen o'r flwyddyn i'r llall. Yr unig amod a roddir bellach yw un ariannol, amod nad oedd mewn bodolaeth i'r Annibynwyr cynnar. Ceir 'eglwysi' di-weinidog, a heb awydd i gael un chwaith am ei bod yn rhatach rhedeg y clwb hebddo. Yn ôl egwyddorion Annibyniaeth rhaid wrth weinidog . . . Ceir cyfoeth mawr yng nghoffrau'r eglwysi, ond nid oes llawer o awydd gwneud defnydd ohono; rhaid ei gadw gogyfer â 'dydd glawog', heb sylweddoli ei bod yn ei harllwys hi ar hyn o bryd . . . Yn waeth na hyn i gyd . . . ni ddangosir llawer o bryder am dlodion ac anffodusion ein byd . . . Tra bo'r byd o'n hamgylch yn mynd yn fwy gormesol ac anghyfiawn, rydym yn fud, yn credu mai'r unig egwyddor o bwys yw'r un cwbl gwrth-Gristnogol, o "Edrych ar ôl dy hun", a hynny yn ysbrydol yn ogystal â thymhorol.[11]

Do, diflannodd yr egwyddorion sylfaenol bron bob un. A ddaw tro ar fyd eto yn hanes eglwysi Annibynnol? Hwyrach bod y rhai sy'n galw eu hunain yn Gristnogion yn sylweddoli mai gweithredu'n unol ag egwyddorion Teyrnas Dduw yw dyletswydd pennaf aelodau eglwysig ac nid yn ôl egwyddorion Annibyniaeth.

**Undeb yr Annibynwyr**

Mae Eglwys Esgairdawe yn perthyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Sefydlwyd yr Undeb o ganlyniad i weledigaeth a brwdfrydedd Annibynwyr blaenllaw y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny yng Nghapel Ebeneser, Abertawe ar nos Iau, Hydref 12fed, 1871, gyda'r amcan o geisio meithrin gwell perthynas rhwng Annibynwyr â'i gilydd, yn weinidogion ac aelodau. Ond, o dan brotest y sefydlwyd ef. Ofnid y gallai'r

gyfundrefn ddatblygu i fod yn awdurdod a safai rhwng yr eglwys a Duw. Llywydd y cwrdd sefydlu oedd Henry Richard, Aelod Seneddol a galwodd ar y Parchedig John Thomas, gweinidog y Tabernacl, Lerpwl i roi amlinelliad o'r cynllun a baratowyd gan y pwyllgor, a'i gynnig yn ffurfiol. Ni feddyliodd ef ei hun y byddai'r fenter yn dderbyniol, ond eiliwyd ei gynigiad gan y Parchedig William Evans, Aberaeron, ac er syndod a boddhad i bawb, un aelod o'r cyfarfod yn unig a bleidleisiodd yn erbyn y bwriad. Felly, rhoddwyd y teitl "Undeb yr Annibynwyr Cymraeg" i'r sefydliad newydd.

Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Blynyddol cyntaf yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin ar Fedi'r 3ydd, 4ydd a'r 5ed, 1872. Yr ysgrifennydd am 1871 oedd y Parchedig Josiah Jones, Machynlleth ac am 1871-2, y Parchedig T. Johns, Llanelli. Agorwyd y gyfres o gyfarfodydd gyda chwrdd pregethu ar y nos Fawrth. Pan gyrhaeddodd John Thomas, Lerpwl y capel, bodlonwyd ef yn fawr gan fod y lle yn orlawn. Ni chafwyd llawer o gefnogaeth i'r pwyllgorau a gynhaliwyd ar gyfer y paratoadau. Pregethwyd gan y Dr. Thomas Rees, Abertawe ac Ap Vychan, dau o sylfaenwyr yr Undeb, ac 'roedd eu sylwadau yn gweddu i'r amgylchiad.

Drannoeth, agorwyd gwaith y dydd drwy gynnal cwrdd gweddi, gan ddechrau am hanner awr wedi wyth. Profwyd fod hyn yn rhy gynnar i'r rhai a ddaeth i mewn yn hwyr ac achosi tipyn o dwrw. Roedd y cyfarfod nesaf yn dechrau am ddeg o'r gloch, gyda 177 o weinidogion yn bresennol – pedwar ar ddeg yn unig o'r Gogledd. Llywydd cyntaf yr Undeb oedd y Parchedig W. Rees, D.D., Lerpwl, sef Gwilym Hiraethog. Yn rhyfedd iawn, bu'n pregethu yng Nghapel Esgairdawe ym 1854. Bu Annibynwyr cydwybodol yn gwasanaethu fel Llywyddion yr Undeb ar hyd y blynyddoedd, ond credir fod y Llywydd cyntaf hwnnw yn rhagori arynt oll. Rhoddodd anerchiad ar y testun, 'Satan':

> Yr oedd ef erbyn hyn yn ffigur cenedlaethol ac yn bur eiddigeddus o'i enw da fel 'cymeriad gwreiddiol', fel y gwelwyd pan gyhoeddodd mai 'Satan' oedd testun ei anerchiad o'r Gadair. Ond os oedd y testun yn wreiddiol od, yr oedd yr anerchiad yn un o'r rhai mwyaf a draddodwyd o Gadair yr Undeb erioed. "Er mai 'Satan' oedd y testyn," meddai John Thomas, "yr oedd un a ymddangosai yn feistr ar Satan yn trin ei gyflwr, ac yn dynoethi ei ddichellion". Tra oedd y gynulleidfa'n cael ei gwynt ati ar ôl huodledd Hiraethog, darllenwyd cyfarchion maith gan Gymanfa Oneida, America. Pwy

bynnag oedd yn gyfrifol am drefnu hyn, yr oedd yn ffordd eithaf deheuig i roi statws cydwladol i'r Undeb![12]

Yn dilyn yr anerchiad nodedig, bu John Thomas yn darllen ei sylwadau ar y testun, "Difyrrwch Amheus" a bu trafodaeth fanwl ar ôl hynny. Yna, cafwyd cyfle i ymlacio pan ddaeth E. Herber Evans ymlaen i roi gwahoddiad i'r Undeb i gynnal y cyfarfodydd blynyddol yng Nghaernarfon ym 1873.

Yr arferiad heddiw, pan gynhelir oedfaon arbennig mewn capel, yw paratoi lluniaeth i'r gynulleidfa yn y festri. Nid felly yn y cyfnod hwnnw. Arweiniodd John Thomas a Gwilym Hiraethog y dyrfa o weinidogion i gael cinio yn y 'Drovers Arms' gerllaw'r capel, lle cawsant eu digoni. Roedd yno groeso twymgalon hefyd i'r gwesteion, gan fod James Parry, y gwesteiwr a'i gymar yn gyfarwydd â'r gwaith o roi llety i bregethwyr Heol Awst.

Cafwyd dau gyfarfod arall y diwrnod hwnnw – un am ddau a'r llall am hanner awr wedi chwech. Dyna bedwar cyfarfod mewn diwrnod. Nid rhai ysgafn mohonynt chwaith. Yng nghyfarfod yr hwyr, bu pedwar yn traddodi ar bynciau dyrys,

> Pedr Mostyn Williams... "Gogwyddiadau llenyddol yr oes", Herber ar "Gogwyddiadau addoliadol yr oes", David Jones (Merthyr) ar "Gogwyddiadau anffyddol yr oes", a Thomas Davies (Llanelli) ar "Gogwyddiadau addysgol yr oes".[13]

Gyda'r gyfres yn dirwyn i ben, cynhaliwyd cynhadledd ar fore Iau a barnai'r hyrwyddwyr fod yr Undeb yn llwyddiant ac y byddai o fudd i'r eglwysi. Arferai'r eglwysi Cymreig a'r rhai Seisnig fod â pherthynas agos rhyngddynt, a'r prif reswm paham y penderfynwyd ffurfio Undeb ar wahân i Gymru oedd y gwahaniaeth ieithyddol.

Gorffennwyd yr ŵyl gyda thair oedfa bregethu yn Heol Awst. Roedd dau weinidog yn pregethu ymhob un a'r bobl yn tyrru yno. Roeddent mor niferus yn oedfa'r hwyr fel nad oedd digon o le iddynt yn y capel. Felly, bu'n rhaid trefnu oedfa i lawer ohonynt yng Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Heol Dŵr. Noson gofiadwy ydoedd, ac yn fwy felly yn Heol Awst oherwydd, ar derfyn y cwrdd, offrymwyd gweddi angerddol gan y cenhadwr Griffith John, a ddaeth adref am dro o China.

'Deuparth gwaith, ei ddechrau,' medd y ddihareb. Felly gydag Undeb yr Annibynwyr – corff a ddatblygodd o nerth i nerth

ar hyd y blynyddoedd. Dyma'r unig Undeb Cymraeg yng Nghymru heddiw. Bu'n gyfrwng i geisio calonogi a hyrwyddo pregethiad yr Efengyl ac argraffu llenyddiaeth grefyddol ar gyfer yr eglwysi. Nid yw'n ymyrryd dim yn nhrefniadau'r eglwysi, ond mae'n ddyletswydd ar bob eglwys i gyfrannu at waith yr Undeb a theimlo'r fantais o gael corff o'r fath y tu cefn pe bai angen am gymorth.

Ym 1962, dathlwyd tri chanmlwyddiant y 'Troad Allan'. Cynrychiolwyr o Undeb yr Annibynwyr yn ogystal ag aelodau o enwadau eraill yr Eglwysi Rhyddion oedd yn gyfrifol am y trefniadau. Penderfynwyd neilltuo'r ddau Sul, Medi'r 2ail a'r 9fed fel Suliau'r Cofio er mwyn i'r eglwysi gael cyfle i ddathlu yn lleol. Arweiniad lleol a gafwyd yn hanes Ymneilltuaeth erioed. Trefnwyd dau gyfarfod arbennig hefyd, ddiwedd Medi, un yng Nghaerdydd a'r llall yng Nghaernarfon. Bu nifer o ddathliadau eraill ar hyd y wlad. Cafodd yr amgylchiad ei goffáu yn Esgairdawe gan y Parchg. Giraldus Jones. Cyfeiriodd at ffydd ac ymdrechion y Tadau o blaid yr Efengyl, a hwyrach i'r holl ddathlu beri i aelodau'r eglwysi fod yn fwy ymwybodol o argyhoeddiadau y rhai a drowyd allan ym 1662.

Llywydd yr Undeb ym mlwyddyn y dathlu oedd Dr. E. Lewis Evans, Pontarddulais a rhoddodd anerchiad yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn Wrecsam ar y testun, "Y Ffydd a'i Daliodd Hwy":

> Yr oedd Dr. E. Lewis Evans, a wnaeth gyfraniadau mor sylweddol i hanes crefydd yng Nghymru, yn ddewis anorfod ar gyfer Undeb 1962, blwyddyn dathlu trichanmlwyddiant y diswyddo mawr ym 1662. Ac yr oedd ar ben hynny wedi rhoi gwasanaeth sylweddol fel golygydd Y Tyst.[14]

Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i ddathlu canmlwyddiant yr Undeb ym 1972, pan gynhaliwyd y Cyfarfodydd Blynyddol yn yr un lle ag ym 1872, sef yng Nghaerfyrddin, o dan lywyddiaeth y Parchg. D.J. Roberts, Aberteifi. Roedd testun ei anerchiad yn amserol, sef "Cenadwri Canrif".

> Bu'r Undeb bob amser ar ei orau pan ganolbwyntiai ar wasanaethu . . . Ei ogoniant yw bod yn was. Gwas yr eglwysi, eu gweinidogion, eu haelodau, eu Hysgolion Sul, eu gweithgarwch cenhadol yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor. Yn fwy na dim – gwas Iesu Grist.[15]

Fel rheol, cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn y Gogledd a'r De bob yn ail. Ymwelwyd â Llundain ddwywaith,

sef ym 1898 a 1937. Trefnir cynadleddau a phwyllgorau amrywiol, gan ganolbwyntio ar byncïau megis Y Weinidogaeth, Addysg a Llenyddiaeth, Materion Cymdeithasol, Y Bwrdd Cenhadol, Y Genhadaeth Gartref, Mudiad Ieuenctid yr Annibynwyr a'r Drysorfa Gynorthwyol a'r Pensiynau. Yn ogystal, cynhelir nifer o gyfarfodydd cyhoeddus, – Oedfaon Pregethu, Cyfarfod Cenhadol, Cyfarfod Mudiad y Chwiorydd, Y Gymdeithas Heddwch ac Anerchiad y Llywydd, – cyfraniad a gaiff le amlwg ar yr agenda. Dyma enghreifftiau o destunau'r gorffennol:

| | |
|---|---|
| Llangefni, | 1923 – "Yr Emyn Cymraeg", H. Elfed Lewis, Llundain.' |
| Machynlleth, | 1928 – "Antur Ysbrydol", Ben Davies, Pant-teg, Ystalyfera. |
| Bangor, | 1936 – "Crist a'r Amseroedd Hyn", J. Dyfnallt Owen, Caerfyrddin. |
| Abertawe, | 1945 – "Bwrw'r Draul", D.J. Lewis, Y Tymbl. |
| Tonypandy, | 1948 – "Y Proffwyd", Ben Davies, Llandeilo |
| Penygroes, | 1954 – "Cristnogaeth a'r Gymdeithas Gymreig", Gwynfor Evans, Llangadog. |
| Bangor, | 1975 – "Iesu Grist yn Ddigon", Emlyn G. Jenkins, Caerdydd. |
| Y Tymbl, | 1980 – "Her yr Athrawiaethau", E. Pryce Jones, Llwyncelyn. |

Yng ngyfarfodydd y Bala a'r cylch ym 1986, bu Siân ap Gwynfor, priod Guto Prys ap Gwynfor, cyn-weinidog eglwys Esgairdawe yn rhoi anerchiad i'r gymdeithas heddwch ar y testun, "Tangnefedd Heddiw". Dyma rai brawddegau o'r anerchiad:

> Fe garwn am ychydig drafod rywfaint ar y gair Tangnefedd. Beth yn fy nhyb i yw ei ystyr yng nghyd-destun yr adnod a geir yn y Gwynfydau, "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr', ac ymhellach beth yw perthnasedd yr adnod yma i ni heddiw . . . Mae'r gair Tangnefedd yn ymddangos yn aml iawn yn y Beibl, hen air Cymraeg yw, ac mae'n air hynod o gyfoethog. 'Tanc' yw'r hen air Cymraeg am Heddwch, a 'Nefedd' yn golygu Nefoedd, – Tangnefedd yw heddwch y Nefoedd. Er fod y rhan fwyaf ohonom wedi anghofio tarddiad y gair, eto'i gyd mae'n deg dweud fod yr ystyr gwreiddiol i dangnefedd, yn agosach at yr Hebraeg a'r syniad Hebraeg am Shalôm, – heddwch, cyflwr, nid yn unig cyflwr heb ryfel, ond cyflwr lle mae pob dim yn dda, ac yn gywir ac yn iawn, cyflwr lle mae cyfiawnder yn terynasu.
>
> Peth anodd iawn yw ceisio disgrifio'r nefoedd yn gadarn-

haol . . . Mae'n ddigon sicr nad oes anghyfiawnder na chasineb yno, ond hefyd 'does dim dioddefaint yno, dyna'r awgrym sydd gyda ni yn yr ysgrythurau. 'Rwy'n berffaith sicr hefyd, nad oes yno arfau niwclear na bynceri, 'does yna ddim paratoadau gogyfer a lladd na dinistrio. Fe ellir ychwanegu at hyn, drwy ddefnyddio dychymyg creadigol, ac ystyried y nefoedd fel lle mae pawb yn mwynhau cwmni ei gilydd, pawb ar yr un lefel, neb yn teimlo ei fod yn cael ei esgeuluso. Mae'r rhai sy'n newynu ac yn sychedu am gyfiawnder ymhlith y gwynfydedig, yn ogystal â'r tangnefeddwyr.

. . . mae Iesu . . . yn dweud wrthym i fod yn 'dangnefeddwyr', 'Gwyn eu byd y Tangnefeddwyr' . . . Gwyn eu byd y rhai sy'n mynd ati i sicrhau nad oes unrhyw drahaustra, nad oes unrhyw ddi-urddasoli pobl fod pawb yn byw yn gyfartal – pawb yn cael yr un cyfle, neb yn sarnu hawliau cyd-ddyn, neb yn gormesu cyd-ddyn.[16]

Sylweddolwn fod cyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn llwyddiant a'u bod yn gymorth i feithrin hunan-hyder ymhlith aelodau'r eglwysi. Ar wahanol gyfnodau, bu swyddfa'r Undeb yn Heol Alexandra a Northampton Place, Abertawe, a'r Wasg, ar un adeg, yn Llanelli. Yna, aethpwyd ati i godi adeilad newydd i hwyluso'r gwaith, ar y fan lle safai hen Gapel Sant Helen yn Abertawe. Fe'i agorwyd ar Ebrill 30ain, 1959. Ceir yno swyddfeydd, siop lyfrau ac argraffdy. Galwyd yr adeilad yn Dŷ John Penry – i gofio'r Annibynnwr cyntaf. Cyfeiriwyd at John Penry eisoes yn y bennod hon, gŵr a welodd mai angen pennaf Cymru oedd cael pobl i bregethu'r Efengyl yn Gymraeg. Bu farw dros ei wlad a'r unig beth a adawodd i bob un o'i bedair merch oedd cyfrol o'r Beibl, gan eu hannog i'w ddarllen ac i fynychu'r eglwys. Roedd enwau'r merched yn anarferol, – Deliverance, Comfort, Safety a Sure Hope. O gofio i'w tad aberthu ei fywyd dros Gymru, mae'n anodd deall paham y rhoddodd enwau Saesneg i'w blant.

Dyma'r hyn a 'sgrifennodd ychydig cyn ei farwolaeth:

Bachgen tlawd wyf fi, wedi fy ngeni a'm magu rhwng mynyddoedd Cymru. Myfi yw'r cyntaf er y deffroad efengylaidd diweddar i hau'r had da yn y parthau moelion hyn. Ac yn awr a'm dyddiau'n dirwyn i ben, cyn i mi yn ôl cwrs naturiol bywyd gyrraedd hanner fy nyddiau, yr wyf yn gadael fy ngwaith i ymdrechion y rhai hynny o'm cyd-wladwyr a ddaw ar fy ôl ac a gyfyd yr Arglwydd i gario ymlaen yr hyn a ddechreuais o alw'm cyd-genedl i wybodaeth o Efengyl yr Arglwydd Iesu Grist.[17]

## Y Cyfundeb

Er mai yn sir Gaerfyrddin y mae capel Esgairdawe, mae'n

perthyn i Gyfundeb Ceredigion. Drwy gymorth a chyfarwyddiadau'r Cyfundeb anogir yr eglwysi i gyflawni eu gwaith yn fwy effeithiol. Fel mater o ddiddordeb, dyma restr o faterion a ystyriwyd gan Bwyllgor Gweithiol y Cyfundeb ym mis Rhagfyr, 1920:

1. Y ffordd effeithiolaf i lwyddo'r Ysgol Sul.
2. Y ffordd oreu i gael gan y bobl ieuainc i deimlo mwy o ddiddordeb yng ngwaith yr Eglwys.
3. Y cynllun goreu er perffeithio Caniadaeth y Cysegr.
4. Y Cyfarfod Gweddi.
5. Ystyriaeth i gynhaliaeth y Weinidogaeth.
6. Unrhyw faterion eraill perthynol i lwyddiant yr Achos.[18]

Os bu angen trafod yr uchod erioed, mae'n sicr bod angen gwneud hynny heddiw.

Pan gynhelir cyfarfodydd blynyddol yr Undeb, cynrychiolir y gwahanol Gyfundebau gan dri neu bedwar o weinidogion neu aelodau o'r eglwysi. Drwy hyn, gall y cyfryw bersonau ddwyn penderfyniadau a gweithgareddau'r Undeb yn ôl i'w Cyfundebau fel y gellir eu gweithredu yn yr eglwysi. Nid oes diben i Gyfundeb ar wahân i'r ffaith ei fod yn dilyn cyfarwyddiadau'r Undeb.

Cynhelir Cyfarfodydd Chwarter yn eglwysi'r Cyfundeb yn eu tro. Ceir cyfeiriad at Gyfarfodydd a gynhaliwyd yn Esgairdawe ar Awst 17eg a'r 18fed, 1926. Ni wyddom pwy a fu'n cymryd rhan yno na pha faterion a drafodwyd, ond ceir cofnod yn nodi bod Mr. Charles Evans, Llambed wedi cludo pregethwyr yno am bymtheg swllt. Pan gynhaliwyd cyfarfodydd ar Fawrth 30ain, 1960, cadeirydd y gynhadledd yn y bore oedd E.D. Jones, Stryd y Popty, Aberystwyth. Trafodwyd amrywiol bynciau. Yn oedfa'r prynhawn, rhoddwyd anerchiad gan y Parchg. J. Edwin Davies ar y testun, 'Dylanwad Gras ym mywyd dyn', a phregethwyd gan y Parchedig Ddr. R. Leonard Hugh, Castellnewydd Emlyn. Cafwyd oedfa bregethu yn yr hwyr hefyd, gyda'r Parchedig E. Walter Jones, Gwernllwyn yn pregethu.

Ar waelod y daflen, gwelir y geiriau:

> Erfyniwn ar i'r Eglwysi drefnu cynrychiolwyr i ddyfod i'r Cyfarfodydd Chwarter fel y caffont oll gyfle i ymgydnabyddu â'r trefniadau ac â'r hyn a gyflawnir, ac y dygant adroddiad yn ôl i'w heglwysi.[19]

Yn y Cyfarfodydd Chwarter a gynhaliwyd yn Esgairdawe ar

Fai 25ain, 1977, cadeiriwyd gan y Parchedig William Davies, Castell Newydd Emlyn. Bu'r Parchedig S. Idris Evans, Hawen yn darllen a gweddïo a'r Parchedig Brinley Thomas, Gwyddgrug yn agor trafodaeth ar y testun, 'Cymod rhwng Dyn a'i Gyd-ddyn'. Yn oedfa'r hwyr, pregethwyd gan y Parchedig T. Hywel Thomas, Llandysul. Dichon i ymweliad y cyfarfodydd hyn ag eglwysi bychain, gwledig fod yn symbyliad i'r aelodau i fod yn fwy teyrngar gyda'r gwaith.

**Ysgolion a Cholegau**

Mae aelodau Eglwys Esgairdawe yn ddyledus i nifer o sefydliadau lle hyfforddwyd myfyrwyr ar gyfer gwaith y weinidogaeth. Am gyfnod o dair canrif bu'r eglwys yn ffodus o gael gwasanaeth gweinidogion a phregethwyr cynorthwyol. Yn ystod y ganrif ddiwethaf, ceid llawer o ysgolion ac academïau a fu'n gyfrwng i gyflwyno gwybodaeth i fechgyn ar gyfer amrywiol alwedigaethau. Yn eu plith yr oedd Ysgol Neuadd-lwyd. Aeth dau a gafodd eu haddysg fore yn yr Hen Dŷ Cwrdd Esgairdawe, sef Evan Jones, Crug-y-bar a J.R. Kilsby Jones, i Ysgol Neuadd-lwyd i barhau gyda'u gwersi wrth draed yr enwog Ddoctor Phillips. Soniwyd eisoes am yr ysgol honno wrth ymdrin â hanes Kilsby, a dyma ran o gerdd a rydd ychydig o wybodaeth ychwanegol amdani:

*Ysgoldy Neuaddlwyd*



YSGOL NEUADDLWYD
(Ar yr alaw "Mentra Gwen")

Hen Ysgol Neuaddlwyd,
  Penybanc, Penybanc,
Oedd fwthyn digon llwyd,
  Penybanc:
"Prifysgol y Bryn Eithin"
A'i muriau o bridd bob tipyn,
A'i tho o wellt y tyddyn, –
  Penybanc.

Er na cheid fawr o gelfi
  'N Mhenybanc, Penybanc,
Ar furiau'r hen Ysgoldy –
  Penybanc.
Pwy sydd nad yw yn hysbys
O'r Groeg a'r Lladin grymus
A'r addysg ddiesgeulus
  Ym Mhenybanc?

'Roedd Kilsby'n un o fechgyn
  Penybanc, Penybanc;
A Silvan – Evans wedyn,
  Penybanc.
"Pant-teg" fu yma, yntau,
"Glandwr", esboniwr golau,
A "Thomas Jones" y Wesle
  Ym Mhenybanc.

Er nad oes tri o dystion,
  Penybanc, Penybanc,
Yn fyw o hen ddisgyblion,
  Penybanc:
Cenhadon Madagascar
Goffheir holl ddyddiau'r ddaear,
A'u ffyddlon offrwm cynnar,
  O Benybanc.

Granellian (1909)[20]

Canolfan addysg boblogaidd arall oedd Athrofa Ffrwd-fâl, o dan athrawiaeth Dr. William Davies. Enillodd ef y radd Ph.D. o Goleg Prifysgol Glasgow, yn ôl 'Y Tyst', Hydref 4ydd, 1956. Eithr dyma'r hyn a ddarllenir yn y Bywgraffiadur Cymreig, – "heb os nac oni bai, yr oedd yn athro gwych ac yn ysgolhaig sownd; yn 1842 cafodd radd Ph.D. o'r Almaen – ni ddywedir gan ba brifysgol, ond y mae'r ffaith yn sicr".

Codwyd llu o ysgolfeistri a gweinidogion yn ei Athrofa. Bu Dr. Davies yn pregethu'n gyson yn Esgairdawe ond ceir tystiolaeth mai pregethwr diflas a di-ddawn ydoedd. Hwyrach mai hyfforddi pobl eraill oedd ei arbenigrwydd.

Nid nepell o Athrofa Ffrwd-fâl yr oedd Academi Llansawel a agorwyd ym 1866. Yr athro oedd y Parchedig Jonah Evans, – un o ddisgynyddion y 'Llwydiaid' o sir Aberteifi. Ar ôl gorffen ei gwrs yng Ngholeg Caerfyrddin yn y flwyddyn 1861, bu'n cadw ysgol am gyfnod byr yng Nglyn-nedd, cyn symud i gychwyn ysgol yn Llanybydder ym 1862. Ymhen pedair blynedd, symudodd i Lansawel i gadw ysgol yno:

> Yng Ngwanwyn 1866, daeth i'n clywedigaeth yn Rhydcymerau fod ysgol wedi cael ei hagor yn Llansawel, o dan arolygiaeth athro dysgedig, yr hwn oedd eisoes wedi ennill cymeradwyaeth uchel fel un medrus i "ddod a phlant yn y blaen" . . . Cynhaliai ei ysgol y pryd hwnnw yn y Town Hall, lle yr ymgynhullai rhyw gant a deg o ysgolheigion, yn fechgyn a merched, ac yn amrywio mewn oedran o bump i bump ar hugain.[21]

Pregethai Jonah Evans yn gyson yn yr ardal, gan gerdded i'w gyhoeddiadau, a hynny ambell waith, ymhell o'i gartref. Mae'n debyg ei fod yn bregethwr da.

Ym 1881, daeth D.W. Hopkins o Gastell-nedd i'r Ysgol Ramadeg yn Llansawel. Dewisodd yr ysgol hon o blith nifer o ysgolion eraill a oedd yn bodoli yn y wlad yr adeg honno. Tystiolaethai'r gŵr hwn fod Jonah Evans yn athro medrus a chydwybodol eithriadol. Ei nod oedd cael ei fyfyrwyr i ddysgu'r grefft o wrando. Cyffelybai'r ddawn arbennig hon i bontydd sy'n cludo gwybodaeth i mewn drwy'r clustiau i'r ymennydd. Roedd yn arbenigwr ar agor y pontydd hyn:

> ymadawodd cannoedd o Lansawel yn gyfoethogion mewn gwybodaeth, a hynny yn herwydd ei fedrusrwydd ef i agor y pontydd. Yr ydoedd ei "Now, good boys, good boys", yn agor y bont i'w heithaf yn ddidrafferth.[22]

Erbyn hyn, mewn adeilad bychan ger mynwent Eglwys y Plwyf y cynhelid yr ysgol, – adeilad hollol siomedig a diaddurn a dyma a ddywed D.W. Hopkins amdano:

> Nid yn yr adeilad yr oedd mawredd a gogoniant Ysgol Ramadegol Llansawel, eithr yn ei hathro a'i gwaith; rhaid myned i fewn, dilyn y dosbarthiadau, gweled yr ymegnïad, a sylwi ar gynnydd, er gweled ei mawredd . . . os mai di-olwg ydoedd tuallan, yr oedd yn ogoneddus a chyfoethog tufewn.[23]

Tystiai'r Parchedig Evan Williams o Landdeusant, myfyriwr arall, bod gwaith y weinidogaeth yn hollol ddieithr iddo pan gyrhaeddodd yr ysgol hon. Ymddangosai popeth yn dywyll iddo ond wedi bod yno am beth amser, daeth goleuni ar lawer pwnc. Drwy gael ei gyfarwyddo yn y Clasuron, Rhif a Mesur, yn ogystal â dysgu Groeg a Lladin, daeth yn ymwybodol fod cadernid a chydymdeimlad yn rhai o nodweddion yr athro.

Bu'r Parchg. Ben Davies, Pant-teg, Ystalyfera, gweinidog Giraldus Jones, yn fyfyriwr yn yr Academi. Enillodd Ben y Gadair am awdl ar y testun, 'Rhinwedd' yn Eisteddfod Genedlaethol Tredegar yn fuan wedi dod i Lansawel. Drannoeth y cadeirio, cafodd groeso tywysogaidd pan gyrhaeddodd yn ôl i'r Academi, – cariwyd ef drwy'r pentref gyda phawb yn canu ei glodydd. Daeth 'Sawel Academi' i sylw'r holl wlad a rhoddodd hyn lawer o ysbrydiaeth i'r Athro Jonah Evans. Yn fuan wedi hyn, cynhaliwyd 'Eisteddfod Fawreddog' yn y cylch gyda Ben Davies yn beirniadu'r adrodd a'r llenyddiaeth. Bu'n gweinidogaethu yn Llundain ar un adeg cyn dychwelyd i Ystalyfera. Cyfansoddodd nifer o emynau – gwelir tri ar ddeg ohonynt yn y *Caniedydd* a dichon mai'r un mwya' poblogaidd yw "Mi goda'm hegwan lef". Ond yn awr, cofnodir y gerdd a 'sgrifennodd am y 'Sawel Academi':

Yr ysgol hên ar lan y lli,*1
  A'r meirw llonydd am y mur,*2
Ond tyrfa fyw sydd ynddi hi,
  Ar riniog oes – â'r fron ddigur.

Mae llwydni henaint ar y tŷ,
  A'r ffenest fach yn llwyd ddi-wên,
Ond nwyfiant ifanc ynddo sy'
  Fel newydd win mewn costrel hen.

Y Proffwyd Jona*3 ger y tân
  Â Groeg a Lladin ar ei fin –
Ei sisial mwyn a'i wyneb glân
  A'r bechgyn oll mor hawdd i'w trin!

Mae gwasg blynyddoedd ar y tô,
  Daw ambell ddarn o'r nen i lawr,
Ac yn yr hollt ar ambell dro –
  Mae wyneb rhyw ysgolor mawr.